Archwilio Cymru
Audit Wales

# Asesiad o Gynaliadwyedd Ariannol – Cyngor Sir Penfro


Blwyddyn archwilio: 2020-21

Cyhoeddwyd: Awst 2021

Cyfeirnod y ddogfen: 2540A2021-22

Paratowyd y ddogfen hon fel rhan o waith a gyflawnir yn unol ag adran 17 Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 (Deddf 2004) ac adran 18 Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009. Gall hefyd oleuo astudiaeth ar gyfer gwella gwerth am arian dan adran 41 Deddf 2004, a/neu archwiliad a gyflawnir gan yr Archwilydd Cyffredinol dan adran 15 Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

Ni chymerir unrhyw gyfrifoldeb gan yr Archwilydd Cyffredinol na staff Archwilio Cymru mewn perthynas ag unrhyw aelod, cyfarwyddwr, swyddog neu gyflogai arall yn eu cymhwyster unigol, nac mewn perthynas ag unrhyw drydydd parti.

Os ceir cais am wybodaeth y gall y ddogfen hon fod yn berthnasol iddi, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 45 Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Mae Cod adran 45 yn nodi'r arfer o ran trin ceisiadau a ddisgwylir gan awdurdodau cyhoeddus, gan gynnwys ymgynghori â thrydydd partïon perthnasol. Mewn perthynas â'r ddogfen hon, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru ac Archwilio Cymru yn drydydd partïon perthnasol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â datgelu neu ailddefnyddio'r ddogfen hon at Archwilio Cymru yn swyddog.gwybodaeth@archwilio.cymru.

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg. This document is also available in English.

# Cynnwys


Yr hyn y gwnaethom fwrw golwg arno a pham 4

Cynigion ar gyfer gwella 5

Mae’r Cyngor wedi rheoli ei adnoddau i ymdrin â phwysau ariannol hyd yma ond mae’n parhau i wynebu heriau sylweddol i gwrdd â’i fwlch o ran cyllid a ragwelir wrth edrych tua’r dyfodol 6

Mae effaith uniongyrchol COVID-19 ar gynaliadwyedd ariannol y Cyngor wedi cael ei lliniaru gan gyllid ychwanegol gan Lywodraeth Cymru 6

Mae gan y Cyngor strategaeth i adnabod ei heriau ariannol a mynd i’r afael â hwy, ond mae cyflawni hyn yn dod yn fwy o her o un flwyddyn i’r llall, gyda phwysau cynyddol ar dargedau arbedion ac ansicrwydd parhaus ynghylch lefelau cyllid 7

Mae cronfeydd wrth gefn defnyddiadwy’r Cyngor wedi aros yn weddol sefydlog dros y blynyddoedd diwethaf ond mae disgwyl iddynt ddechrau gostwng o 2020-21 ymlaen ac mae’r Cyngor wedi parhau â’i hanes o beidio â gwneud defnydd heb ei gynllunio o gronfeydd wrth gefn i ariannu gwariant refeniw 9

Mae’r Cyngor wedi llwyddo i raddau helaeth i ateb ei ofyniad o ran y gyllideb dros y blynyddoedd diwethaf gan nodi amrywiannau bychain yn ei gyllideb refeniw net ar y cyfan. Fodd bynnag, roedd gorwariannau sylweddol mewn rhai meysydd gwasanaeth 12

Mae gan y Cyngor hanes amrywiol o ran cyflawni ei arbedion wedi’u cynllunio ond mae wedi gweld llithriant dros y ddwy flynedd ddiwethaf gyda hynny’n creu pwysau ychwanegol ar gyllidebau yn y dyfodol. Fodd bynnag, mae’n gweithredu i fynd i’r afael â’r risg barhaus na fydd yn cyrraedd ei dargedau effeithlonrwydd o ran costau 14

Mae’r Cyngor wedi cynnal lefelau hylifedd ffafriol dros y blynyddoedd diwethaf, gan ategu ei sefyllfa ariannol 15

# Yr hyn y gwnaethom fwrw golwg arno a pham

1 Fe gynhaliom ni'r asesiad hwn gan bod cynaliadwyedd ariannol yn dal i fod yn risg i allu cynghorau i sefydlu trefniadau priodol i sicrhau gwerth am arian wrth ddefnyddio adnoddau. Yn rhannol, cafodd hyn ei oleuo gan brofiadau rhai cynghorau yn Lloegr, ein gwybodaeth am y sefyllfa ariannol mewn cynghorau yng Nghymru, a'r duedd gyffredinol o ran adnoddau gostyngol ar gyfer llywodraeth leol ar y cyd â galw cynyddol am rai gwasanaethau. Fe gynhaliom ni brosiect tebyg yn 2019-20, cyn pandemig COVID-19.

2 Cynhaliwyd ein hasesiad yn 2020-21 o gynaliadwyedd ariannol cynghorau mewn dau gam. Roedd Cam 1 yn asesiad sylfaenol o effaith gychwynnol COVID-19 ar sefyllfa ariannol cynghorau lleol. Roedd Cam 1 yn seiliedig ar: y sefyllfa diwedd blwyddyn ar gyfer 2019-20; y sefyllfa ar ddiwedd chwarter 1 ar gyfer 2020-21; ac amcanestyniadau ar gyfer chwarter 2 yn 2020-21. Yn dilyn Cam 1, ym mis Hydref 2020 fe gyhoeddom ni adroddiad cryno cenedlaethol – **Cynaliadwyedd Ariannol Llywodraeth Leol o ganlyniad i Bandemig COVID-19**[1]. Canfuom fod cynghorau a Llywodraeth Cymru wedi cydweithio'n dda i liniaru effaith y pandemig hyd yma, ond bod cynaliadwyedd y sector yn y dyfodol yn her barhaus.

3 Mae'r pandemig wedi cael effaith uniongyrchol a dwfn ar gyllid y sector cyhoeddus yn ei gyfanrwydd ac, o ganlyniad, ar sefyllfa ariannol cynghorau. Roedd yr adroddiad cryno'n nodi sefyllfa sylfaenol lefel uchel, gan gynnwys sefyllfa cynghorau lleol o ran eu cronfeydd wrth gefn cyn y pandemig. Roedd hefyd yn nodi goblygiadau ariannol cychwynnol y pandemig i gynghorau lleol a maint yr her a ddisgwylid wrth edrych tua'r dyfodol.

4 Mae'r adroddiad hwn yn benllanw ar gam 2 ein gwaith i asesu cynaliadwyedd ariannol yn ystod 2020-21. Fel rhan o hyn rydym yn cynhyrchu adroddiad lleol ar gyfer pob un o'r 22 o brif gynghorau yng Nghymru.

5 Fe gynhaliom ni'r asesiad hwn rhwng mis Ionawr 2021 a mis Mawrth 2021.

[1] Archwilio Cymru, Cynaliadwyedd Ariannol Llywodraeth Leol o Ganlyniad i Bandemig COVID-19, Hydref 2020.

# Cynigion ar gyfer gwella

**Arddangosyn 1: cynigion ar gyfer gwella**

Mae'r tabl isod yn nodi'r cynigion ar gyfer gwella yr ydym wedi'u hadnabod yn dilyn yr adolygiad hwn.

| Cynigion ar gyfer gwella | |
| --- | --- |
| C1 | Dylai'r Cyngor alinio'i Gynllun Corfforaethol a'i Gynllun Ariannol Tymor Canolig i sicrhau y gellir darparu adnoddau addas ar gyfer amcanion y Cyngor. |
| C2 | Dylai'r Cyngor gryfhau ei drefniadau i sicrhau y cyflawnir yr arbedion wedi'u cynllunio a nodir yng Nghynllun Ariannol Tymor Canolig y Cyngor. |

# Mae'r Cyngor wedi rheoli ei adnoddau i ymdrin â phwysau ariannol hyd yma ond mae'n parhau i wynebu heriau sylweddol i gwrdd â'i fwlch o ran cyllid a ragwelir wrth edrych tua'r dyfodol

## Mae effaith uniongyrchol COVID-19 ar gynaliadwyedd ariannol y Cyngor wedi cael ei lliniaru gan gyllid ychwanegol gan Lywodraeth Cymru

7 Mae'r adran hon yn nodi'r effaith y mae COVID-19 wedi'i chael hyd yma ar sefyllfa ariannol y Cyngor ac i ba raddau y mae wedi cael ei lliniaru gan gyllid ychwanegol gan Lywodraeth Cymru.

8 Canfuom fel a ganlyn

- er gwaethaf yr heriau sylweddol y mae'r Cyngor wedi'u hwynebu oherwydd COVID-19, nid effeithiwyd yn sylweddol ar ei sefyllfa ariannol fyrdymor, er bod y pandemig wedi effeithio'n andwyol ar gyrraedd targedau effeithlonrwydd wedi'u cynllunio. Fodd bynnag, mae'r effaith fwy hirdymor ar ddarparu gwasanaethau ac ar reolaeth ariannol yn anhysbys i raddau helaeth.
- mae'r mwyafrif o'r gwariant ychwanegol/colledion incwm o ganlyniad i'r pandemig wedi cael eu hariannu gan gyfraniadau gan Lywodraeth Cymru.
- mae disgwyl i'r cyllid gan Lywodraeth Cymru i ddigolledu am y gwariant a'r colledion incwm fod yn £20.4 miliwn o'i gymharu â gwariant o £21.1 miliwn, gan adael diffyg o £700,000 sydd wedi cael ei ariannu o adnoddau presennol. (Gweler **Arddangosyn 2**.)
- mae ffynonellau cyllid eraill yn 2020-21 wedi cynnwys £1.2 miliwn gan Cyllid a Thollau EM i ariannu costau ffyrlo, cyllid tracio ac olrhain a chyllid grant cyffredinol ychwanegol.
- mae'r Cyngor wedi sefydlu cronfa wrth gefn wedi'i chlustnodi o £1.7 miliwn ar gyfer pwysau COVID-19 ond nid oes disgwyl iddi gael ei defnyddio yn 2020-21 ac mae wedi cael ei chario drosodd i 2021-22. Nid yw'r gyllideb refeniw gymeradwy ar gyfer 2021-22 yn cynnwys unrhyw ddarpariaeth ychwanegol ar gyfer costau COVID-19 gan bod y Cyngor yn tybio y bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i ariannu costau ychwanegol a ysgwyddir.
- mae Cynllun Ariannol Tymor Canolig (CATC) y Cyngor 2021-22 i 2024-25 yn cydnabod y bydd pandemig COVID-19 yn cael effaith fwy hirdymor ar strategaeth y Cyngor ar y cyfan, y ffordd y mae'n darparu gwasanaethau a'i sefyllfa ariannol. Hyd yn hyn mae'r rhain yn anhysbys i raddau helaeth, ac nid yw'r effaith ariannol lawn wedi cael ei hasesu.

**Arddangosyn 2: cost COVID-19 i'r Cyngor yn ystod 2020-21**

Mae'r tabl isod yn dangos gwariant ychwanegol y Cyngor a'r incwm a gollwyd ganddo yn ystod 2020-21 o ganlyniad i COVID-19 yn ôl yr amcangyfrifon, a faint o hyn a liniarwyd gan gyllid uniongyrchol ychwanegol gan Lywodraeth Cymru.

| | |
|---|---|
| Y swm ychwanegol y mae'r Cyngor yn amcangyfrif y bydd wedi ei wario o ganlyniad i COVID-19 yn ystod 2020-21. | £13.8 miliwn |
| Swm yr incwm y mae'r Cyngor yn amcangyfrif y bydd wedi'i golli o ganlyniad i COVID-19 yn ystod 2020-21. | £7.3 miliwn |
| Swm y cyllid ychwanegol y mae'r Cyngor yn amcangyfrif y bydd yn ei gael o Gronfa Caledi Llywodraeth Cymru yn ystod 2020-21 i liniaru effaith COVID-19. | £20.4 miliwn |
| Cost COVID-19 i'r Cyngor yn ystod 2020-21, ar ôl ystyried y cyllid ychwanegol a ddarparwyd o Gronfa Caledi Llywodraeth Cymru. | £0.7 miliwn |

Ffigyrau wedi'u darparu gan Gyngor Sir Penfro

## Mae gan y Cyngor strategaeth i adnabod ei heriau ariannol a mynd i'r afael â hwy, ond mae cyflawni hyn yn dod yn fwy o her o un flwyddyn i'r llall, gyda phwysau cynyddol ar dargedau arbedion ac ansicrwydd parhaus ynghylch lefelau cyllid

### Pam fod cynllunio ariannol strategol yn bwysig


9 Mae strategaeth ariannol eglur a chadarn yn bwysig i adnabod lefel debygol y cyllid sydd ar gael i gyngor, yn ogystal â lefel ddisgwyliedig y galw am wasanaethau a chost eu darparu. O ystyried y pwysau diweddar a'r pwysau a ddisgwylir o ran cyllid ar gyfer yr holl gynghorau mae hefyd yn bwysig adnabod sut y mae'n bwriadu ymateb i'r pwysau hynny, ac yn arbennig sut y bydd yn cwrdd â bylchau a ragamcanir o ran cyllid.

10 Canfuom fel a ganlyn

- yn flaenorol, daethom i’r casgliad bod gan y Cyngor strategaeth i adnabod ei heriau ariannol a mynd i’r afael â hwy, ond y gallai cyflawni hyn ddod yn fwy o her o un flwyddyn i’r llall. Felly y mae hi o hyd o 2020-21 ymlaen gyda phwysau cynyddol ar dargedau arbedion ac ansicrwydd parhaus ynghylch lefelau cyllid.
- mae CATC cymeradwy’r Cyngor yn nodi’r heriau ariannol allweddol a’r bylchau o ran cyllid a ddisgwylir ac yn nodi asesiad y Cyngor o’r modd y mae’n bwriadu ariannu’r bwlch yma dros y blynyddoedd nesaf.
- mae’r CATC yn seiliedig ar strategaeth a chynlluniau ariannol allweddol y Cyngor gan gynnwys y Cynllun Corfforaethol, er nad yw hwn yn cael ei gymeradwyo tan ar ôl cyhoeddi’r CATC, felly mae risgiau na fydd amcanion allweddol wedi’u halinio’n llawn.
- mae’r Cyngor wedi adnabod bwlch o ran cyllid a ragamcanir o £44.7 miliwn ar gyfer 2021-22 i 2022-23 (gweler **Arddangosyn 3**). Mae hwn yn seiliedig ar nifer o dybiaethau gan gynnwys: effaith ailbrisio’r gyllideb sylfaenol; amcangyfrifon o gyllid allanol cyfanredol yn y dyfodol (yn seiliedig ar gynnydd o 4% ar gyfer 2021-22 ond cynnydd o ddim o 2022-23 ymlaen); newidiadau yn sylfaen y dreth gyngor; a goblygiadau posibl Brexit. Fodd bynnag, nid yw rhagfynegiadau yn y CATC yn cynnwys effaith bosibl pandemig COVID-19 yn y dyfodol, gan bod y Cyngor yn tybio y bydd costau ychwanegol pellach oherwydd COVID-19 yn cael eu hariannu’n llawn gan Lywodraeth Cymru.
- mae’r Cyngor wedi datblygu cynlluniau i fynd i’r afael â’r bwlch o ran cyllid: mae cyrraedd targedau effeithlonrwydd costau’n rhan allweddol o hyn. Fodd bynnag, mae targedau arbedion yn dod yn fwyfwy heriol oherwydd llithriant blaenorol a phwysau ar y gyllideb. Ceir pwysau ychwanegol ar incwm o’r dreth gyngor hefyd gan nad yw’r Cyngor wedi gwneud y cynnydd disgwyliedig o ran symud i alinio lefelau’r dreth gyngor tuag at Gynllun Cymorth y Dreth Gyngor.

**Arddangosyn 3: mae gan y Cyngor gyfanswm bwlch o ran cyllid a ragamcanir ar gyfer y tair blynedd rhwng 2021-22 a 2023-24 o £44.7 miliwn**

Mae'r graff hwn yn dangos y bwlch o ran cyllid y mae'r Cyngor wedi'i nodi ar gyfer y tair blynedd ganlynol.




Ffynhonnell – CATC ar gyfer 2021-22 i 2023-24

## Mae cronfeydd wrth gefn defnyddiadwy'r Cyngor wedi aros yn weddol sefydlog dros y blynyddoedd diwethaf ond mae disgwyl iddynt ddechrau gostwng o 2020-21 ymlaen ac mae'r Cyngor wedi parhau â'i hanes o beidio â gwneud defnydd heb ei gynllunio o gronfeydd wrth gefn i ariannu gwariant refeniw

### Pam ei bod yn bwysig rheoli cronfeydd wrth gefn yn gynaliadwy

11 Mae lefelau iach o gronfeydd wrth gefn defnyddiadwy'n rhwyd ddiogelwch bwysig i gefnogi cynaliadwyedd ariannol. Yn ogystal â bod ar gael i ariannu pwysau annisgwyl o ran cyllid, gall cronfeydd wrth gefn defnyddiadwy fod yn ffynhonnell cyllid bwysig hefyd i gefnogi mentrau 'buddsoddi i arbed' sydd wedi'u bwriadu i leihau cost barhaus darparu gwasanaethau. Mae cynghorau sy'n dangos patrwm o ddefnydd heb ei gynllunio o gronfeydd wrth gefn i lenwi bylchau yn eu cyllideb refeniw, sy'n arwain at ostyngiadau ym malansau'r cronfeydd wrth gefn, yn lleihau eu cydnerthedd i ariannu pwysau cyllidebol nas rhagwelwyd mewn blynyddoedd yn y dyfodol.

12 Canfuom fel a ganlyn:

- mae cronfeydd wrth gefn defnyddiadwy'r Cyngor wedi aros yn weddol sefydlog dros y blynyddoedd diwethaf ond mae disgwyl iddynt ostwng o 2020-21 ymlaen ac mae'r Cyngor wedi parhau â'i hanes o beidio â gwneud defnydd heb ei gynllunio o gronfeydd wrth gefn i ariannu gwariant refeniw. (Gweler **Arddangosyn 4**.)
- roedd gan y Cyngor gronfeydd wrth gefn defnyddiadwy o £45.7 miliwn yn 2019-20, a oedd yn cyfateb i 18.9% o gost net ei wasanaethau. Wrth gymharu hyn â'r ffigyrau cyfatebol ar draws cynghorau Cymru gwelir mai 33.4% yw'r uchaf ac mai 4.2% yw'r isaf. (Gweler **Arddangosyn 5**.)
- mae balans y gronfa gyffredinol a ddelir yn dal i fod yn £7 miliwn ac mae wedi aros ar y lefel hon ers 2016-17, yn unol â 'Pholisi Cronfeydd wrth Gefn' y Cyngor.
- disgwylir i gronfeydd wrth gefn defnyddiadwy ostwng £7 miliwn (15%) i £38.7 miliwn yn 2020-21. Mae symudiadau wedi'u cynllunio'n cynnwys cyfraniad net o £1.6 miliwn o'r Cronfeydd wrth Gefn Asedau ac Atgyweirio, £3.5 miliwn o'r Cronfeydd wrth Gefn Trawsnewid tuag at gostau'r Rhaglen Weinyddu a Chronfeydd wrth Gefn Ysgolion Unigol i leihau o £1.2 miliwn.
- mae'r CATC yn rhagfynegi gostyngiadau pellach mewn cronfeydd wrth gefn defnyddiadwy wedi'u cynllunio o £1.6 miliwn (4%) i £37.1 miliwn yn 2021-22.
- yn hanesyddol, nid yw'r Cyngor wedi dibynnu ar ddefnydd heb ei gynllunio o gronfeydd wrth gefn i ariannu gwariant refeniw. Fodd bynnag, er nad oedd 'heb ei gynllunio', mae'r Cyngor wedi cymeradwyo cyfraniad o £2.6 miliwn o gronfeydd wrth gefn wedi'u clustnodi tuag at 'gynnig ar gyfer twf' i bontio'r bwlch o ran cyllid a nodwyd yn y CATC ar gyfer 2021-22.

**Arddangosyn 4: swm y cronfeydd wrth gefn o'i gymharu â'r gyllideb flynyddol**

Mae'r arddangosyn hwn yn dangos swm y cronfeydd wrth gefn defnyddiadwy a oedd gan y Cyngor yn ystod 2019-20 a'r tair blynedd flaenorol fel cyfran o gost net y gwasanaethau y mae'r Cyngor yn eu darparu.

| | 2016-17 | 2017-18 | 2018-19 | 2019-20 |
|---|---|---|---|---|
| Amcangyfrif o Gost Net Gwasanaethau mewn £ miliynau [2] | 217.5 | 221.7 | 232.8 | 242.1 |


[2] Y gwerth a ddefnyddiwyd yw cost net gwasanaethau a godwyd ar y gronfa gyffredinol o'r Dadansoddiad Ariannu Gwariant, namyn unrhyw gost gwasanaethau a ariennir o'r Cyfrif Refeniw Tai, gan ychwanegu praeseptau, ardollau a llog ar ddyledion. Ffynhonnell: Datganiad Cyfrifon

| | 2016-17 | 2017-18 | 2018-19 | 2019-20 |
|---|---|---|---|---|
| Cyfanswm Cronfeydd Wrth Gefn Defnyddiadwy mewn £ miliynau [3] | 47 | 43.1 | 46.4 | 45.7 |
| Cyfanswm Cronfeydd Wrth Gefn Defnyddiadwy fel canran o gost net gwasanaethau [4] | 21.6% | 19.5% | 20.0% | 18.9% |

Ffynhonnell – Datganiad Cyfrifon Cyngor Sir Penfro 2016-17 i 2019-20

**Arddangosyn 5: cymharu â chynghorau eraill Cymru**

Mae'r graff canlynol yn dangos cyfanswm cronfeydd wrth gefn defnyddiadwy Cyngor Sir Penfro fel canran o Gost Net Gwasanaethau o'i gymharu â chynghorau eraill Cymru.




| | 2015-16 | 2016-17 | 2017-18 | 2018-19 | 2019-20 |
|---|---|---|---|---|---|
| Uchaf yn y Flwyddyn | 33.5% | 34.4% | 33.6% | 33.6% | 33.4% |
| Sir Benfro | 32.2% | 21.6% | 19.5% | 20.0% | 18.9% |
| Isaf yn y Flwyddyn | 10.4% | 8.8% | 7.2% | 6.1% | 4.2% |

Ffynhonnell – Cymhariaeth data Archwilio Cymru

[3] Wrth y term cronfeydd wrth gefn defnyddiadwy rydym yn golygu cyfanswm balans y gronfa gyffredinol, ynghyd â chronfeydd wrth gefn wedi'u clustnodi nad yw cynghorau wedi'u hatal yn gyfreithiol rhag eu hailgyfeirio i'w defnyddio ar gyfer diben arall. Ffynhonnell: Datganiad Cyfrifon

[4] Cyfrifiad Archwilio Cymru.

## Mae'r Cyngor wedi llwyddo i raddau helaeth i ateb ei ofyniad o ran y gyllideb dros y blynyddoedd diwethaf gan nodi amrywiannau bychain yn ei gyllideb refeniw net ar y cyfan. Fodd bynnag, roedd gorwariannau sylweddol mewn rhai meysydd gwasanaeth

### Pam ei bod yn bwysig rhagweld gwariant yn gywir

13 Mae'n bwysig bod gorwariant a thanwariant yn cael eu cadw dan reolaeth a bod gwariant gwirioneddol mor agos â phosibl at y lefelau a gynlluniwyd. Mae cyngor sy'n methu â rhagweld a chynllunio gwariant yn gywir yn achosi risg o greu pwysau ariannol nas rhagwelwyd a all beryglu'r gallu i bennu cyllideb fantoledig. Gall patrymau sylweddol o danwariant fod yn lleihau gallu cyngor i gyflawni ei amcanion allweddol neu gyflawni ei gyfrifoldebau statudol.

14 Canfuom fel a ganlyn:

- dros y blynyddoedd diwethaf mae'r Cyngor wedi llwyddo i raddau helaeth i ateb ei ofyniad o ran y gyllideb gydag amrywiannau bychain wedi'u nodi yn erbyn ei gyllideb refeniw net ar y cyfan. Fodd bynnag, fel a nodwyd yn flaenorol, roedd gorwariannau sylweddol mewn rhai meysydd gwasanaeth.
- mae'r Cyngor wedi cyflawni'r sefyllfa hon trwy gasglu mwy o'r dreth gyngor nag y mae wedi cyllidebu ar ei chyfer, llai o gostau cyllido cyfalaf oherwydd addasiadau unigol yn ystod y flwyddyn, sicrhau cyllid ychwanegol gan Lywodraeth Cymru a defnyddio dyraniad ar gyfer hapddigwyddiadau yn y gyllideb flynyddol dros y blynyddoedd diwethaf o £1.2 miliwn.
- nododd y Cyngor danwariant cyffredinol ar ddiwedd 2019-20 o £0.2 miliwn gyda thanwariant disgwyliedig o £0.4 miliwn ar ddiwedd 2020-21. (Gweler **Arddangosyn 6**.)
- fodd bynnag, bu tueddiadau parhaus o orwario adrannol dros y blynyddoedd diwethaf. Mae cyllidebau Gofal Cymdeithasol yn arbennig wedi nodi gorwariannau oherwydd pwysau ar wasanaethau a galwadau cynyddol ar y meysydd canlynol:
  - roedd gan y gwasanaethau Gofal Oedolion orwariant yn 2019-20 o £2.3 miliwn (5% o'u cyllideb net) a £2 filiwn yn 2020-21 (3% o'u cyllideb net).
  - nododd y Gwasanaethau Plant orwariant yn 2019-20 o £0.2 miliwn (2% o'u cyllideb net) ond amcangyfrifir y bydd hwn yn cynyddu'n sylweddol i £1.9 miliwn (14% o'r gofyniad cyllidebol) yn 2020-21.
- fe newidiodd y Cyngor ei strategaeth ar gyfer y gyllideb o 2020-21 ymlaen gyda phob adran yn cael cynnydd yn ôl cyfradd safonol o ddim a gofyniad i ariannu pwysau ar y gwasanaeth o fewn hyn. Ar gyfer unrhyw gyllid ychwanegol a ganfyddir, rhaid i adrannau gyflwyno 'cynigion ar gyfer twf' a dim ond unwaith y mae'r gwasanaeth wedi bod trwy adolygiad busnes y caiff y rhain eu cymeradwyo.

- ym mis Tachwedd 2020, rhoddodd Cabinet y Cyngor gymeradwyaeth i sefydlu'r 'Bwrdd Perfformiad a Her' i ddarparu her ychwanegol ar gyfer proses pennu a monitro'r gyllideb o 2021-22 ymlaen, gan gynnwys adolygiadau manwl o wasanaethau ac adolygiadau o 'gynigion ar gyfer twf' adrannol.
- roedd eitem ddigwyddiadol o £1.2 miliwn wedi'i chynnwys yng nghyllideb 2020-21 at ddiben ymdrin â phwysau ar y gyllideb na chynlluniwyd ar eu cyfer a fyddai'n digwydd yn ystod y flwyddyn, gan gynnwys methiant i gyflawni gostyngiadau/effeithlonrwydd o ran costau ac mae disgwyl i hon gael ei defnyddio'n llawn. Yn sgîl y bwlch sylweddol o ran cyllid ar gyfer 2021-22, fe dynnwyd yr eitem ddigwyddiadol allan ar gyfer oes lawn y CATC o 2021-22 ymlaen gyda chyllid yn cael ei ddyrannu fel rhan o 'gynigion ar gyfer twf' adrannol yn lle hynny.

**Arddangosyn 6: swm y gorwariant/tanwariant yn berthynol i gyfanswm y gyllideb refeniw net**

Mae'r arddangosyn canlynol yn dangos swm y gorwariant neu'r tanwariant yng nghyllideb refeniw net y Cyngor ar y cyfan am y pedair blynedd ddiwethaf ac ar gyfer 2020-21 fel a ddisgwylid ar 4 Mawrth 2021.

| | 2016-17 | 2017-18 | 2018-19 | 2019-20 | 2020-21 |
|---|---|---|---|---|---|
| Cyllideb Refeniw Net Wreiddiol £ miliynau | 202.1 | 204.8 | 215.5 | 221.5 | 235.5 |
| Alldro Refeniw Net Gwirioneddol | 202.8 | 204.8 | 216.1 | 221.3 | 235.1 |
| Swm y gwarged/(gorwariant) ar y cyfan) | (0.7) | 0.0 | (0.6) | 0.2 | 0.4 |
| Gwahaniaeth canrannol o'i gymharu â'r gyllideb refeniw net | (0.4%) | 0% | (0.25%) | 0.09% | 0.2% |

Ffynhonnell – Adroddiadau Monitro'r Gyllideb i'r Cabinet 2016-17 i 2020-21

## Mae gan y Cyngor hanes amrywiol o ran cyflawni ei arbedion wedi'u cynllunio ond mae wedi gweld llithriant dros y ddwy flynedd ddiwethaf gyda hynny'n creu pwysau ychwanegol ar gyllidebau yn y dyfodol. Fodd bynnag, mae'n gweithredu i fynd i'r afael â'r risg barhaus na fydd yn cyrraedd ei dargedau effeithlonrwydd o ran costau

### Pam fod y gallu i adnabod a chyflawni cynlluniau arbedion yn bwysig

15 Mae'r gallu i adnabod meysydd lle gellir gwneud arbedion ariannol penodol, ac i wneud yr arbedion hynny'n ddiweddarach, yn agwedd allweddol ar sicrhau cynaliadwyedd ariannol parhaus yn erbyn cefnlen o bwysau ariannol cynyddol. Lle na chaiff cynlluniau arbedion eu cyflawni gall hyn arwain at orwariannau sy'n golygu bod angen defnyddio cronfeydd wrth gefn cyfyngedig gan hefyd gynyddu lefel yr arbedion y mae eu hangen mewn blynyddoedd yn y dyfodol i wneud iawn am hyn. Lle nad yw cynlluniau arbedion yn cael eu cyflawni a bod angen i feysydd gwasanaeth wneud arbedion heb eu cynllunio, mae hyn yn cynyddu'r risg naill ai na fydd arbedion yn gyson â blaenoriaethau'r Cyngor, neu o ddatrysiadau 'byrdymor' nad ydynt yn gynaliadwy dros y tymor canolig.

### Yr hyn a ganfuom

16 Canfuom fel a ganlyn

- mae gan y Cyngor hanes amrywiol o ran cyflawni ei arbedion wedi'u cynllunio ond mae wedi gweld llithriant dros y ddwy flynedd ddiwethaf gyda hynny'n creu pwysau ychwanegol ar gyllidebau yn y dyfodol. Mae'r Cyngor yn gweithredu i fynd i'r afael â'r risg barhaus na fydd yn cyrraedd ei dargedau effeithlonrwydd o ran costau.
- mae CATC y Cyngor yn cynnwys disgwyliad y bydd y Cyngor yn cyflawni o leiaf 80% o'r arbedion wedi'u cynllunio bob blwyddyn. Fodd bynnag, er bod y Cyngor wedi mynd y tu hwnt i'w dargedau yn 2018-19 gan gyflawni 83.5%, ni chafodd arbedion ar gyfer 2019-20 eu cyflawni fel a gynlluniwyd gyda dim ond 66.2% yn cael eu cyflawni. (Gweler **Arddangosyn 7**.)
- ar gyfer 2020-21 rhagfynegir mai dim ond £3.8 miliwn (47.5%) o'r targed o £8 miliwn fydd yn cael ei gyrraedd. Er bod hyn i'w briodoli i raddau helaeth i effaith COVID-19 (yn enwedig gydag oedi o ran y Rhaglen Drawsnewid), mae hyn yn parhau â'r duedd o dangyflawni o'r flwyddyn flaenorol gyda llithriant sy'n cael ei gario ymlaen i flynyddoedd dilynol yn ychwanegu at bwysau ar y gyllideb.
- mae'r gorwariant cyllidebol a ragamcanir o ganlyniad wedi cael ei wrthbwyso gan fesurau byrdymor gan gynnwys defnyddio'r dyraniad digwyddiadol o £1.2 miliwn, incwm ychwanegol o grantiau ac arbediad unigol o ran cyllido cyfalaf.

- mae ffocws y ‘Rhaglen Drawsnewid’ yn cael ei ailbennu ar hyn o bryd ac ynghyd ag adolygiad allanol o ddarparu gwasanaethau a her ychwanegol yn cael eu cyflwyno i’r broses gyllidebol ar gyfer 2021-22, mae’r Cyngor yn cymryd camau i fynd i’r afael â’r risg barhaus o beidio â chyrraedd ei dargedau effeithlonrwydd o ran costau.
- mae’r CATC wedi nodi arbedion effeithlonrwydd o ran costau sy’n ofynnol o £34.4 miliwn (77%) fel rhan o’i gynlluniau i fynd i’r afael â’r bwlch disgwyliedig o ran cyllid o £44.7 miliwn ar gyfer y cyfnod 2021-22 i 2023-24, gan gynnwys £4.2 miliwn mewn arbedion effeithlonrwydd nas cyflawnwyd yn ystod 2020-21.

**Arddangosyn 7: arbedion a gyflawnwyd yn ystod 2018-19, 2019-20 ac yr amcangyfrifir y byddant yn cael eu cyflawni yn 2020-21 fel canran o’r arbedion wedi’u cynllunio**

Mae’r arddangosyn canlynol yn nodi faint o arian yr oedd y Cyngor yn bwriadu ei arbed o’i gynlluniau arbedion yn ystod 2018-19 a 2019-20, a faint o hyn y gwnaeth ei arbed mewn gwirionedd yn ogystal â ffigyrau a amcangyfrifir ar gyfer 2020-21.

| | 2018-19 | 2019-20 | Amcangyfrif 2020-21 |
|---|---|---|---|
| Cyfanswm arbedion wedi’u cynllunio mewn £ miliynau | 11.6 | 15.7 | 8 |
| Arbedion wedi’u cynllunio a gyflawnwyd mewn £ miliynau | 9.7 | 10.4 | 3.8 |
| Canran yr arbedion a gyflawnwyd | 83.6% | 66.2% | 47.5% |

Ffynhonnell – Adroddiadau alldro’r gyllideb i’r Cabinet ar gyfer 2018-19 i 2020-21

## Mae’r Cyngor wedi cynnal lefelau hylifedd ffafriol dros y blynyddoedd diwethaf, gan ategu ei sefyllfa ariannol

### Pam fod sefyllfa hylifedd y Cyngor yn bwysig

17 Pam ei bod yn bwysig pwyso a mesur asedau cyfredol o’i gymharu â rhwymedigaethau cyfredol (hylifedd:

- mae’n arwydd o’r modd y mae cyngor yn rheoli ei gyllid yn y tymor byr.
- er ei fod yn cael ei ddefnyddio’n gyffredin i archwilio pa un a yw sefydliadau’n gallu talu eu dyledion yn y tymor byr, mae hyn yn annhebygol o fod yn risg i gynghorau o ystyried eu gallu i gymryd benthyciadau

byrdymor. Fodd bynnag, mae hefyd yn gweithredu fel dangosydd sy'n dynodi sut y mae cyngor yn rheoli ei gyllid yn y tymor byr.

- dylai cynghorau â chymarebau hylifedd isel sicrhau bod ganddynt drefniadau i gwrdd â'u rhwymedigaethau.
- gall fod costau ychwanegol i gynghorau sy'n dibynnu ar fenthyciadau byrdymor i dalu dyledion.

18 Canfuom fel a ganlyn:

- mae'r Cyngor wedi cynnal lefelau hylifedd ffafriol dros y blynyddoedd diwethaf, gan ategu ei sefyllfa ariannol; ac
- fel arwydd o sefyllfa hylifedd y Cyngor, fe wnaethom adolygu cymarebau cyfalaf gweithio a chanfuom fod y rhain wedi aros yn weddol sefydlog dros y cyfnod o bum mlynedd hyd at 31 Mawrth 2020 gan amrywio rhwng 1.9 a 3 gyda chyfartaledd blynyddol o 2.2. (Gweler **Arddangosyn 8**.)

**Arddangosyn 8: cymhareb cyfalaf gweithio rhwng 2015-16 a 2019-20**

| | 2015-16 | 2016-17 | 2017-18 | 2018-19 | 2019-20 |
|---|---|---|---|---|---|
| Asedau Cyfredol mewn£ miliynau[5] | 113.4 | 97.2 | 70.3 | 82.5 | 81.1 |
| Rhwymedigaethau Cyfredol mewn £ miliynau [6] | 38.4 | 35.9 | 42.6 | 45.9 | 43.8 |
| Cymhareb Cyfalaf Gweithio | 3.0 | 2.7 | 1.7 | 1.8 | 1.9 |

Ffynhonnell – Cyfrifon archwiliedig 2015-16 i 2019-20 ac amcangyfrifon a ddarparwyd gan y Cyngor 2020-21

[5] Mae asedau cyfredol yn cynnwys: buddsoddiadau byrdymor, asedau a ddelir i'w gwerthu, rhestrau eiddo, dyledwyr byrdymor, ac arian parod a'i gyfwerth

[6] Mae rhwymedigaethau cyfredol yn cynnwys: benthyciadau byrdymor, credydwyr byrdymor, a darpariaethau sy'n ddyledus ymhen un flwyddyn

Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500
Ffacs: 029 2032 0600
Ffôn testun: 029 2032 0660

E-bost: post@archwilio.cymru
Gwefan: www.archwilio.cymru

We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English.
Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg.